

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Gwasanaethau Ariannol

Cyflwyniad

1. Ar 14 Medi 2020 cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor hwn i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Ariannol ("y Memorandwm"), ac i gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 18 Rhagfyr 2020. Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm ar 2 Rhagfyr 2020.

Cefndir

2. Cyflwynwyd y Bil Gwasanaethau Ariannol ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 21 Hydref 2020 a chafwyd yr ail ddarlleniad ar 9 Tachwedd 2020. Gosodwyd Memorandwm y Bil ar 3 Tachwedd 2020 gan Jane Hutt AS, Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip.

Y Bil

3. Diben y Bil, a noddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi, yw gwneud darpariaeth ynghylch gwasanaethau a marchnadoedd ariannol; cynlluniau seibiant dyledion; cyfrifon cymorth i gynilo; ac at ddibenion cysylltiedig. Yr amcan polisi y mae Llywodraeth y DU wedi'i ddatgan yw sicrhau bod fframwaith rheoleiddiol y DU yn parhau i weithredu'n effeithiol ar gyfer y DU ar ôl ymadael â'r UE, ac mae'n ystyried bod y Bil yn gam cyntaf pwysig tuag at gymryd cyfrifoldeb am reoleiddio gwasanaethau ariannol, a sicrhau bod y DU yn cynnal y safonau rheoleiddio uchaf ac yn parhau i fod yn ganolfan ariannol fyd-eang agored a deinamig.



Y ddarpariaeth yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad ar ei chyfer

Cymal 32

- 4.** Mae Cymal 32 yn ymwneud â rheoli dyledion personol ac yn cynorthwyo unigolion i reoli eu dyledion, gan eu helpu i ddatrys anawsterau wrth ad-dalu ac i ad-dalu'r hyn sy'n ddyledus i gredydwyr mewn ffordd a reolir. Mae angen cydsyniad oherwydd bod y ddarpariaeth hon yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig.
- 5.** Gwnaeth y Ddeddf Arweiniad a Hawliadau Ariannol 2018 (“Deddf 2018”) ddarpariaeth ar gyfer creu cynllun seibiant dyledion. Mae'r cynllun yn cynnwys dwy ran: y cynllun Lle i Anadlu a'r cynllun ad-dalu dyledion statudol (“SDRP”).
- 6.** Mae'r Nodyn Esboniadol i'r Bil yn esbonio mai rhan gyntaf y cynllun yw Lle i Anadlu, “[which] offers people in problem debt a 60-day moratorium on enforcement action, fees and certain forms of interest while they engage with professional debt advice”. Mae'r Llywodraeth yn cyflawni'r rhan hon o'r cynllun drwy Reoliadau'r Cynllun Seibiant Dyledion (Moratoriwm Lle i Anadlu a Moratoriwm Argyfwng Iechyd Meddwl) (Cymru a Lloegr) 2020, a gymeradwywyd gan Senedd y DU ac a ddaw i rym ar 4 Mai 2021.
- 7.** Mae'n mynd ymlaen i egluro mai ail ran y cynllun yw'r SDRP. Gellid cynnig y cynllun hwn i bobl sydd mewn dyledion problemus a byddai'n darparu cytundeb diwygiedig rhwng y dyledwr a'i gredydwyr ynghylch y swm sy'n ddyledus ar ei ddyledion a'r amserlen ar gyfer eu had-dalu. Mae'r Nodyn Esboniadol yn nodi nad oes datrysiad dyledion statudol ar hyn o bryd sy'n canolbwyntio'n llwyr ar ad-daliad yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac mae'r Llywodraeth o'r farn y dylai darparu datrysiad â'r un amddiffyniadau cyfreithiol rhag unrhyw gamau gweithredu gan gredydwyr ag sy'n berthnasol yn Lle i Anadlu annog mwy o bobl i gael cyngor ar ddyledion yn gynt ac ad-dalu eu dyledion yn ôl amserlen y gellir ei rheoli.
- 8.** Bydd Cymal 32 o'r Bil yn diwygio adrannau 6 a 7 o Ddeddf 2018 i roi'r ystod lawn o bwerau sydd eu hangen ar Lywodraeth y DU i ddrafftio'r rheoliadau gofynnol i weithredu'r SDRP yn effeithiol.
- 9.** I grynhoi, bydd y gwelliannau hyn yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud mewn perthynas â'r SDRP, a all:

 - a. ysgogi credydwyr i dderbyn telerau ad-dalu diwygiedig;

- b. darparu ar gyfer mecanwaith codi tâl lle bydd credydwyr yn cyfrannu at gost rhedeg y cynllun a chynlluniau ad-dalu; a
- c. chynnwys dyledion sy'n ddyledus i adrannau llywodraeth ganolog.

Cymhwysedd Deddfwriaethol

10. Mae Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cadw gwasanaethau ariannol yn ôl, gan gynnwys busnes buddsoddi, bancio a chymryd adneuo, cynlluniau buddsoddi cyfunol ac yswiriant. Mae'r cymal cadw hwn yn berthnasol i bob darpariaeth arall yn y Bil. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau seibiant dyledion, cyngor ar ddyledion a rheoli dyledion yn faterion a gedwir yn ôl. Wrth geisio cydsyniad deddfwriaethol mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o'r farn nad fyddai'r cynllun SDRP yn dod o fewn unrhyw gymal cadw ac felly maent wedi ceisio cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Cymal 32.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil y DU

11. Mae'r Memorandwm yn esbonio y bydd yr SDRP yn galluogi unrhyw unigolyn i ad-dalu ei ddyledion yn ôl amserlen y gellir ei rheoli, gydag amddiffyniadau cyfreithiol rhag unrhyw gamau gweithredu gan gredydwyr am gyfnod ei gynllun. Bydd hyn yn gyfle i bobl yng Nghymru, sy'n cael problemau â dyledion, i gael gwell rheolaeth ar eu materion ariannol.

12. Mae'r Memorandwm yn nodi y bydd datblygu'r SDRP yn gofyn am fewnbwn gan Lywodraeth Cymru ac ystod eang o randdeiliaid wrth ddatblygu unrhyw gynllun. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r ddarpariaeth hon o fewn Bil y Deyrnas Unedig gan mai dyma'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi datblygu'r rheoliadau a fydd yn caniatáu i ail ran y cynllun seibiant dyledion, h.y. yr SDRP, fod yn gymwys yng Nghymru, yn amodol ar ystyriaeth lawn o fanylion unrhyw gynllun arfaethedig gan y Senedd a chymeradwyo'r rheoliadau sy'n ei weithredu.

13. Nid yw Llywodraeth y DU wedi gosod dyddiad penodol i weithredu'r SDRP, na phryd y mae'n bwriadu gwneud y rheoliadau. Fodd bynnag, mae adran 7(8)(b) o Ddeddf 2018 yn nodi y bydd angen i unrhyw rheoliadau, i'r graddau y byddant yn darparu ar gyfer y cynllun SDRP i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru, gael eu gosod gerbron y Senedd a'u cymeradwyo trwy benderfyniad gan y Senedd er mwyn iddynt fod yn gymwys yng Nghymru. Bydd hyn yn galluogi'r Senedd i ystyried goblygiadau'r SDRP yng Nghymru yn llawn, ac ystyried a chymeradwyo'r rheoliadau ynghyd ag unrhyw welliannau (y gellir eu cynnwys yn y rheoliadau) i Fesur neu Ddeddf bresennol y Senedd.

14. Mae'r Memorandwm hefyd yn nodi nad oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r ddarpariaeth yn y Bil sydd o fewn cymhwysedd ac y ceisir cydsyniad ar ei chyfer.

Safbwynt y Pwyllgor

15. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y Bil cyfredol yn gwneud darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29, ac nid yw'n gweld dim rheswm dros wrthwynebu bod y Senedd yn cytuno i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm hwn.